

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Gwasanaeth Argyfwng Effeithiol Effective Emergency Service Cover

Q12 William Graham: Will the First Minister outline the actions taken to ensure effective emergency service cover within South Wales East? OAQ1758(FM)

The First Minister: Local health boards have responsibility to work with their partners to commission appropriate levels of emergency care for their areas. The Welsh Assembly Government is committed to transforming the delivery of emergency care, and the developing emergency care services policy will be issued for consultation this week.

C12 William Graham: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r camau a gymerwyd i sicrhau ymateb gwasanaeth brys effeithiol yn Nwyrain De Cymru? OAQ1758(FM)

Y Prif Weinidog: Y byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am weithio gyda'u partneriaid i gomisiynu lefelau priodol o ofal brys yn eu rhanbarthau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwmo i weddnewid y dull o gyflwyno gofal brys, a chyhoeddir yr wythnos hon bolisi datblygu'r gwasanaethau gofal brys er mwyn ymgynghori yn ei gylch.

Chwilio am Nwy ac Olew Gas and Oil Exploration

Q13 Elin Jones: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's role in granting licences for gas and oil exploration? OAQ1756(FM)

The First Minister: The Assembly Government is a consultee when any licensee proposes to carry out any seismic surveys or drilling under its licence, and the UK Government would consider its application in light of a range of environmental protection provisions, including the habitats directive, the birds directive and the environmental impact assessment directive.

C13 Elin Jones: A wnaiff y Prif Gweinidog ddatganiad am rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn dyfarnu trwyddedau ar gyfer chwilio am nwy ac olew? OAQ1756(FM)

Y Prif Weinidog: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghorydd pan fydd unrhyw ddaliwr trwydded yn bwriadu cynnal arolygon seismig neu waith tyllu o dan ei drwydded, a byddai Llywodraeth y DU yn ystyried unrhyw gais yn wyneb nifer o amodau sy'n diogelu'r amgylchedd, gan gynnwys y gyfarwyddeb cynefinoedd, y gyfarwyddeb adar a'r gyfarwyddeb asesu'r effaith ar yr amgylchedd.

Lleihau nifer y Cerddwyr a Leddir Reducing Pedestrian Deaths

Q14 David Melding: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly

C14 David Melding: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymdrechion

Government's efforts to reduce the number of pedestrian deaths in Wales? OAQ1746(FM)

Llywodraeth Cynulliad Cymru i leihau nifer y cerddwyr a leddir ar y ffordd yng Nghymru? OAQ1746(FM)

The First Minister: We are committed, through our road safety strategy, to improving safety for pedestrians. Provisional casualty figures show that 32 pedestrians died in 2005—this is 41 per cent lower than the baseline average for 1994-98. We need to maintain this welcome downward trend.

Y Prif Weinidog: Yr ydym wedi ymrwymo, drwy ein strategaeth diogelwch ar y ffyrdd, i wella diogelwch cerddwyr. Mae ffigurau amodol ar ddamweiniau yn dangos bod 32 o gerddwyr wedi marw yn 2005—sef 41 y cant yn llai na'r cyfartaledd sylfaen ar gyfer 1994-98. Mae'r duedd yma ar i lawr i'w chroesawu ac mae angen inni ei chynnal.

Cyflogaeth Gweithgynhyrchu (Sir y Fflint) Manufacturing Employment (Flintshire)

Q15 Mark Isherwood: Will the First Minister make a statement on manufacturing employment in Flintshire? OAQ1754(FM)

C15 Mark Isherwood: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyflogaeth gweithgynhyrchu yn sir y Fflint? OAQ1754(FM)

The First Minister: The manufacturing sector within Flintshire remains one of the primary economic drivers of the north Wales economy, with over 40 per cent of the region's employment in this sector. The programmes of the Department for Enterprise, Innovation and Networks continue to assist a number of the county's key companies, both directly and indirectly, in the provision of sites and premises.

Y Prif Weinidog: Mae'r sector gweithgynhyrchu yn sir y Fflint yn parhau i fod yn un o'r prif ysgogwyr o ran economi gogledd Cymru, ac mae dros 40 y cant o gyflogaeth y rhanbarth yn y sector hwn. Mae rhaglenni'r Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau yn dal i gynorthwyo nifer o gwmnïau allweddol yn y sir, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, drwy ddarparu lleoliadau ac adeiladau.